# Llywodraeth Cymru

# Cynghorwyr Arbennig

**Cyflog**: £50,070 (amser llawn).

Os byddwch yn gweithio’n rhan-amser, cewch eich talu pro rata yn ôl y cyflog blynyddol amser llawn.

**Patrwm gwaith**: Byddwn yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd am weithio'n amser llawn neu'n rhan-amser a'r rheini a hoffai drefnu secondiad o'u swydd bresennol.

Mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu penodi nifer o gynghorwyr arbennig drwy hysbyseb agored a chyfweliad. Mae cynghorwyr arbennig yn weision sifil sy'n cael eu penodi o dan amodau a thelerau sy'n caniatáu iddynt roi gwedd wleidyddol ar y cyngor a'r cymorth a roddant i Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r swyddi hyn wedi eu lleoli'n bennaf yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd, ac maent yn gyfle i weithio mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym iawn, gan gydweithio’n agos â Gweinidogion a gweision sifil i gyflawni agenda Llywodraeth Cymru. Bydd angen i’r ymgeiswyr llwyddiannus feddu ar wytnwch a’r gallu i weithio o’u pen a’u pastwn eu hunain ac i gynnig barn gadarn o fewn amserlen dynn.

Gan fod elfen wleidyddol gref i swyddogaeth y cynghorydd arbennig, bydd angen i’r ymgeiswyr allu dangos eu bod yn gwerthfawrogi ac yn coleddu gwerthoedd Llywodraeth Lafur Cymru, a bydd gofyn iddynt allu ennyn a chynnal hyder Gweinidogion a rhanddeiliaid allweddol.

Croesewir ceisiadau'n arbennig gan ymgeiswyr sydd â phrofiad mewn unrhyw un o'r meysydd canlynol:

- Y Gymraeg
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tai a Llywodraeth Leol
- Cydraddoldeb
- Cyllid
- Busnes y Llywodraeth a’r Cynulliad

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 15 Chwefror 2019.

I gael fersiwn print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hon, ffoniwch Ganolfan Gwasanaethau Corfforaethol Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru ar 03000 255454.